



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE



Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies



Tystysgrif Polisi a Chynllunio Iaith

Hyrwyddo'r Gymraeg

27/4/26

Sesiwn 10: Crynhoi

9:30	Cyflwyniadau byrion
10:00-10:20	Sgwrs am yr MA gyda Dr Hywel Glyn Lewis
10:20-10:30	Egwyl 10 munud
10:30-11:00	Mynd dros y traethawd eto
11:00-11:35	Comisiwn - Elin
11:35-11:45	Egwyl 10 munud
11:45	Sgwrs gyda'r Arholwr Allannol – Yr Athro Sabine Asmus



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE

Amserlen Aseidiadau Modwl 2:

08/05/26	Dychwelyd Adborth Cyflwyniad
15/5/2026	Dyddiad Cyflwyno Traethawd
5/6/2026	Dychwelyd Adborth Traethawd
23/6/2026	Bwrdd Arholi Cewch gadarnhad o'ch graddau o fewn 10 diwrnod
08/7/2026	Graddio



Teitl yr Aseiniad: *Dadansoddwch yn feirniadol gynllun/iau gan un neu ragor o endidau i hyrwyddo'r Gymraeg. Dylech roi sylw i elfennau strategaeth, polisi a gweithredu.*

Nifer o eiriau (neu'r cyfwerth): 5,400 (hyd at 10% +/- **heb golli marciau**)

Dyddiad cyflwyno: 15/05/2026

Dyddiad dychwelyd marciau dros dro ac adborth ysgrifenedig: 05/06/2026

Mae'r adran hon yn **awgrymu** strwythur posibl ar gyfer eich aseiniad ond sylwch mai canllaw yn unig yw hwn; felly ni ddylech adael i'r canllaw gyfyngu ar eich ysgrifennu.

Trwy gydol yr aseiniad, mae'n hanfodol eich bod yn cefnogi pob agwedd ar eich trafodaeth a'ch gwerthusiad beirniadol gan ddefnyddio darllen cefndir eang a manwl. Dylech osgoi gwneud honiadau heb eu cefnogi gan ddefnyddio ymchwil.

Strwythur:

Awgrym ac Amcangyfrif geiriau

Cyflwyniad

Yn y rhan hon, dylech gyflwyno amlinelliad o'r hyn y byddwch yn ei wneud yn y traethawd. Dylech hefyd grynhoi eich casgliadau. (oddeutu 300 o eiriau)


Corff y Traethawd

- Cyflwyno cyd-destun cefndirol yr endid/au (oddeutu 1000 gair)
- Cyflwyno cyd-destun cynllun/iau hyrwyddo'r Gymraeg yr endid/au (oddeutu 1000 gair)
- Dadansoddi strategaeth, polisi a gweithredu (oddeutu 2,800 gair)

Casgliad (oddeutu 300 o eiriau)

Yn yr adran hon, dylech grynhoi eich prif gasgliadau. (oddeutu 300 o eiriau)

Asesu: Cyfeirnod



Copi ar Moodle

Neu drwy'r glicio yma: [Cyfeirnod](#)

1. **Enw'r awdur(on) y flwyddyn a'r dudalen** – Dangoswch enw'r awdur a'r flwyddyn cyhoeddi yn y testun, e.e., (Jones, 2020, t. 45).
2. **Trefn gywir** – Yn y llyfryddiaeth, rhwch yr awdur, y flwyddyn, teitl y gwaith (mewn italig neu wedi'i danlinellu), y lleoliad cyhoeddi a'r cyhoeddwr.

Williams, C. H. (2000) *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales*. Caerdydd: University of Wales Press.
3. **Cysondeb** – Cadwch at un arddull o fformatio (e.e., defnyddio coma, collnodau, italig)
4. **Gwybodaeth lawn ar gyfer pob ffynhonnell** – Sicrhewch eich bod yn cynnwys pob manylyn angenrheidiol, fel rhif tudalen (os yn dyfynnu), rhif cyfrol (ar gyfer erthyglau), a dolen neu DOI ar gyfer ffynonellau ar-lein.

Ar gael yn: <https://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/cyhoeddiadau> (**Cyrchwyd:** 2 Mawrth 2025)

Asesu: Deallusrwydd Artiffisial

Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol mewn Asesiadau

YMCHWIL	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i'ch cefnogi mewn ymchwil a dadansoddi data.	Gallwch ☒ Na allwch ☐
STRWYTHUR	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i'ch cefnogi wrth strwythuro eich gwaith, yn cynnwys llunio strwythur dadl drafft, dynodi adrannau a phenawdau ac ati.	Gallwch ☒ Na allwch ☐
PRAWF DDARLLEN	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i wirio eich testun/creadigaeth eich hun am wallau gramadegol a chystrawennol, gan gynnwys cael awgrymiadau i aralleirio eich gwaith.	Gallwch ☒ Na allwch ☐
YSGRIFENNU	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i greu testun i'w gyflwyno.	Gallwch ☐ Na allwch ☒
CREADIGOL	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i greu deunyddiau creadigol, megis delweddau.	Gallwch ☒ Na allwch ☐
RHAGLENNU	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i greu a gwirio cod.	Gallwch ☐ Na allwch ☐
DIM	Ar gyfer yr asesiad hwn, ni chaniateir i chi ddefnyddio unrhyw fath o gymorth drwy Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol. Mae hyn yn cynnwys cymorth ymchwil, cymorth strwythur, cymorth ysgrifennu / prawf ddarllen a chymorth creadigol.	☐

Rwy'n cydnabod y defnydd o [Offeryn AI] [(url yr Offeryn AI)] ar [Dyddiad] i [Pwrpas fy ngwaith].

Defnyddiais yr anogwr(wyr) / prompt(iau) canlynol:

[Anogwr/Prompt]

[Anogwr/Prompt]

[Anogwr/Prompt]

Rwy'n cadarnhau nad ydw i wedi cyflwyno unrhyw destun a gynhyrchwyd gan ddeallusrwydd artiffisial fel fy ngwaith fy hun.

Rwy'n cadarnhau bod gennyf gopiau o'm drafftiau, fy nodiadau, ac unrhyw adnoddau eraill y defnyddiais cyn ac ar ôl defnyddio offer deallusrwydd artiffisial, y gellir gofyn i mi eu darparu fel tystiolaeth.

Dyfyniad yn y testun:

(OpenAI, 2024)

Cofnod yn y llyfryddiaeth:

OpenAI (2024) *ChatGPT (fersiwn Ebrill 2024)*. Ar gael yn:

<https://chat.openai.com/> (Cyrchwyd: 26 Ebrill 2025).

COMISIWN CYMUNEDAU CYMRAEG

- **Cefndir:** Sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2022, o dan gadeiryddiaeth Dr Simon Brooks.
- Y Gymraeg yn iaith genedlaethol – nid Gaeltacht – a bod “parhad y Gymraeg fel iaith gymunedol mewn cymdogaethau lle mae’n iaith mwyafrif y boblogaeth, neu lle mae hyn wedi bod yn wir tan yn gymharol ddiweddar, yn bwysig i’r strategaeth genedlaethol o gynyddu defnydd o’r Gymraeg yn ogystal â chyrraedd targed o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.”

- **Cylch gorchwyl Cam 1:**

1. Dadansoddi data

2. Adnabod ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol

3. Adnabod ymyraethau polisi posib

4. Ymyraethau o ddau fath

- Uniongyrchol o ran polisi iaith


- Cyd-destunau sosio-economaidd, cymdeithasol ac addysgol

5. Gwneud hyn mewn dwy ffordd

- Cyngor polisi cyhoeddus ar y gweill (Cynllun Tai Cymunedol, Bil Addysg Gymraeg, TAN 20

- Argymhellion Polisi Cyhoeddus yn fwy cyffredinol


<https://www.llyw.cymru/adroddiad-grymuso-cymunedau-cryfhaur-gymraeg>



COMISIWN CYMUNEDAU CYMRAEG

- **Cefndir: Ail Gam y Comisiwn**, penodwyd aelodau ac is-gadeirydd, Awst 2024.
- “Gwaith y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yw gwneud argymhellion er mwyn cryfhau polisi cyhoeddus o ran cynaliadwyedd ieithyddol mewn cymunedau, a defnydd o’r Gymraeg fel iaith gymunedol/gymdeithasol... y Gymraeg yn iaith i Gymru gyfan”. “Prif nod ail gam y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yw ystyried sefyllfa’r Gymraeg mewn ardaloedd sydd â dwysedd canolig neu is o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru a thu hwnt.”
- **Cylch gorchwyl Cam 2:**
 1. Ystyried y Gymraeg fel iaith gymdeithasol/gymunedol, data
 2. Cryfhau cynaliadwyedd a defnydd yn y cymunedau hyn
 3. Adnabod rôl a chyfraniad meysydd polisi allweddol
 4. Ystyried strategaethau penodol mewn cymunedau dwysedd canolig ac is
 5. Cwblhau adroddiad cryno ar Gynllunio Gwlad a thref
 6. Ystyried y Gymraeg tu hwnt i Gymru
 7. Cyflwyno adroddiad

<https://www.llyw.cymru/comisiwn-cymunedau-cymraeg-adroddiad-yr-ail-gam>



Cyrraedd pob cymuned, cryfhau'r Gymraeg



- Canolbwyntio ar **gryfhau defnydd cymunedol** o'r Gymraeg mewn ardaloedd â dwysedd canolig neu is o siaradwyr, gan bwysleisio fod y Gymraeg yn iaith genedlaethol
- Nodi bod mwyafrif siaradwyr Cymraeg yn byw mewn ardaloedd dwysedd canolig neu is, dadlau bod angen ymyriadau aml-sector i greu a chynnal gofodau Cymraeg ym mywyd bob dydd y **tu hwnt i'r ysgol**
- Tynnu sylw at **rwystrau cymdeithasol ac economaidd** (megis tlodi, diffyg amser a thrafnidiaeth), ac yn galw am blethu polisi'r Gymraeg â pholisïau ar lesiant, adfywio, cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Hyrwyddo dull **cymdeithasoli iaith**, gan edrych ar gyd-destun mwy holistaidd o drosglwyddo, caffael, defnyddio a datblygu iaith (model TRIAWD)

- Dysgu o gyd-destunau gwledydd eraill, yn enwedig **Gwlad y Basg**
- Pwysleisio rôl diwylliant, chwaraeon, y gweithle, gofodau digidol a phrofiadau sy'n “sbort” wrth feithrin **defnydd gwirioneddol** o'r Gymraeg.
- Modelau ymddygiadol CAM-Y, (Cymhelliant, Amgylchiadau, Medr = Ymddygiad) a HAPUS, (Hawdd, Amserol, Pleserus, Undod, Sbort)
- Galw am newid **meddylfryd polisi**: gwneud ymyriadau strwythurol, canolbwyntio ar alluogi yn hytrach na pherswâd, a thrawsnewid amgylcheddau cymdeithasol er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cyrraedd pob cymuned.

Cyrraedd pob cymuned, cryfhau'r Gymraeg



- Rhagair
- Crynodeb Gweithredol
- Pennod 1: Cyflwyniad – dadansoddiad
- Pennod 2: Cyd-destun cymdeithasol y Gymraeg mewn ardaloedd dwysedd canolig neu is
- Pennod 3: Trosglwyddo a Chymdeithasoli Iaith
- Pennod 4: Cymdeithasoli'r Gymraeg tu hwnt i'r ysgol: diwylliant, hamdden a phobl ifanc
- Pennod 5: Gweithleoedd a'r Gymraeg
- Pennod 6: Diwedd glo
- Rhestr Argymhellion: 31
- Llyfryddiaeth

Cyrraedd pob cymuned, cryfhau'r Gymraeg



[1.1 Y Gymraeg yng nghyd-destun tiriogaeth Cymru](#)

[1.2 Gwaith y Comisiwn yng nghyd-destun targedau i'r Gymraeg](#)

[1.3 Sail ein gwaith](#)

[1.4 Datblygiadau a fydd o fudd i'r Gymraeg](#)

[1.5 Yr ardaloedd y mae ail gam y Comisiwn yn edrych arnynt](#)

[1.6 Proffil ystadegol ardaloedd o dan sylw](#)

[1.7 Ardaloedd dwysedd canolig](#)

[1.8 Categoriâu o ardaloedd dwysedd canolig](#)

[1.9 Y Gymraeg fel iaith genedlaethol ac iaith gymunedol](#)

[1.10 Gofodau lle mae modd defnyddio'r Gymraeg yn rhwydd](#)

[1.11 Y ddadl iaith a hyder](#)

[1.12 Iaith a gofodau](#)

[1.13 Polisi addysg Llywodraeth Cymru](#)

[1.14 Seiliau cysyniadol](#)

Pennod 1: Cyflwyniad – dadansoddiad

Cyrraedd pob cymuned, cryfhau'r Gymraeg



[2.1 Dosbarth cymdeithasol ac amddifadedd](#)

[2.2 Cyfalaf cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd](#)

[2.3 Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant](#)

[2.4 Cymunedau amlddiwylliannol a chrefyddol](#)

[2.5 Rhywedd a rhywioldeb](#)


[2.6 Anabledd](#)

[2.7 Y Gymraeg fel offeryn cymdeithasol: yr hyn sydd yn bosibl](#)

[2.8 Casgliad](#)

Pennod 2 : Cyd-destun
cymdeithasol y Gymraeg
mewn ardaloedd dwysedd
canolig neu is

Cyrraedd pob cymuned, cryfhau'r Gymraeg



[3.1 Trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau: tystiolaeth ystadegol](#)

[3.2 Yr hyn a allai fod y tu ôl i'r ystadegau](#)

[3.3 Polisi ar drosglwyddo'r Gymraeg](#)

[3.4 Ymchwil ymddygiadol a throsglwyddo'r Gymraeg](#)

[3.5 CAM-Y a throsglwyddo'r Gymraeg: goblygiadau polisi](#)

[3.6 Trosglwyddo'r Fasgeg: paradeim newydd i Gymru ei efelychu?](#)

[3.7 Ail-fframio asiantau a gofodau cymdeithasoli](#)

[3.8 Cefnogi rhieni a gofalwyr o bob cefndir ieithyddol](#)

[3.9 Gweithredu ar raddfa eang](#)

[3.10 Crynodeb: trosglwyddo a chymdeithasoli iaith](#)

Pennod 3 :
Trosglwyddo a
Chymdeithasoli iaith

Cyrraedd pob cymuned, cryfhau'r Gymraeg



4.1 Chwaraeon

4.2 Cynllunio ieithyddol ym maes diwylliant

4.3 Creu gofodau digidol

4.4 Rôl y cyfryngau

4.5 Agweddau pobl ifanc at y Gymraeg

4.6 Cymraeg fel iaith yr ysgol

4.7 Agweddau a defnydd

4.8 Mudiadau a chlybiau pobl ifanc

4.9 Cerddoriaeth a gigs Cymraeg

4.10 Datblygu cymunedol a'r sector ieuenctid creadigol

4.11 Yr 'wyl' Gymraeg fel offeryn cynllunio ieithyddol

Pennod 4 : Cymdeithasoli'r
Gymraeg tu hwnt i'r ysgol:
diwylliant, hamdden a phobl ifanc

Cyrraedd pob cymuned, cryfhau'r Gymraeg



[5.1 Pam mae gweithleoedd yn allweddol yn yr ardaloedd hyn](#)

[5.2 Cyfundrefn ddwyieithog Cymru](#)

[5.3 Y rhesymau cymdeithasol a 'phobl' dros weithredu'n ddwyieithog](#)

[5.4 Amcanion: y rhesymau dros ddewis gweithleoedd](#)

[5.5 Patrymau gweithio](#)

[5.6 Y weledigaeth: ystyr gofodau Cymraeg yn y gweithle](#)

[5.7 Y newid sydd ei angen](#)

[5.8 Safonau, diwylliant a chydymffurfiaeth](#)

[5.9 Cyfrifoldeb ieithyddol corfforaethol](#)

[5.10 Cynllunio'r gweithlu](#)

[5.11 Technoleg yn y gweithle dwyieithog](#)

[5.12 Mudiadau a mentrau cymdeithasol fel gweithleoedd](#)

[5.13 O egwyddorion i ymarferion: gweithleoedd fel gofodau cymdeithasoli](#)

Pennod 5: Gweithleoedd a'r Gymraeg

Cyrraedd pob cymuned, cryfhau'r Gymraeg

Argymhellion

- | | | |
|---|--|--|
| (1) Polisi cyhoeddus | (12) Llyw Cymru a'r Gwyddorau Ymddygiadol | (22) Arwain mewn gwlad ddwyieithog |
| (2) Newid cyffredinol | (13) Basgeg | (23) Taith y defnyddiwr |
| (3) Cyllid | (14) Ysgolion – rhieni a gofalwyr, Ysgolion Bro a Chymunedau Dysgu | (24) Adolygiad Busnes Cymru |
| (4) Awdurdodau lleol | (15) Gofal plant | (25) Partneriaethau Twf a Chydbwyllgorau Corfforedig |
| (5) Tasg a Gorffen Amrywiaeth a Chynhwysiant | (16) Cyfryngau Cymdeithasol | (26) Caffael |
| (6) Datblygu cymunedol | (17) Technoleg | (27) Cynlluniau Datblygu Lleol |
| (7) CAM-Y, HAPUS | (18) Diwylliant, Cerddoriaeth | (28) Stryd Fawr |
| (8) Ymchwil | (19) Chwaraeon | (29) Grantiau Llyw Cymru |
| (9) Adolygiad awdurdodau lleol, dyletswyddau | (20), (21) Deddf y Gymraeg ac Addysg | (30) Mewnbwn Pobl Ifanc |
| (10) Cronfa, o leiaf un gofod, Strategaethau hybu'r Gymraeg | | (31) Cymraeg 2050 |
| (11) Newydd-ddyfodiaid i Gymru | | |



Cyrraedd pob cymuned, cryfhau'r Gymraeg



Argymhellion 1-6

1. Iaith genedlaethol yw'r Gymraeg sy'n perthyn i bawb yng Nghymru yn ogystal ag i'w siaradwyr yng ngweddill y byd. Er mwyn cryfhau'r Gymraeg fel iaith genedlaethol fyw, mae angen ei chryfhau fel iaith gymunedol. Dylid grymuso cymunedau Cymraeg ledled Cymru, a chryfhau hefyd gynaliadwyedd y Gymraeg mewn cymunedau Cymraeg, a dylai polisi cyhoeddus adlewyrchu'r nodau hyn yn llawn.
2. Gan fod y Gymraeg yn perthyn i bob un ohonom, o bob cefndir, dylai'r Gymraeg gyrraedd pob cymuned. Ni ddylai neb fethu cyrraedd cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar sail amddifadedd cymdeithasol. Golyga hyn sicrhau amodau, adnoddau ac amgylchiadau priodol i'r iaith fod yn rhan o fywyd bob dydd i blant, pobl a chymunedau. Yn rhy aml mae'n rhaid i unigolion ymdrechu i gael cyrraedd y Gymraeg—yn eu cymunedau, eu gofodau cymdeithasol a digidol, mewn gweithleoedd ac mewn gweithgareddau ymarferol a hamdden. Dyma'r newid sydd angen ei roi ar waith o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd canolig ac is.
3. Mae'r gyllideb gyfredol ar gyfer adfywio'r Gymraeg ar y lefel gymunedol yn seiliedig ar gysail hanesyddol, ac nid yw'n diwallu'r nod polisi tymor hir o greu Cymru ddwyieithog. Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r gyllideb a ddyrennir i'r gwaith hwn yn sylweddol fel ei bod yn gymesur â'r dasg dan sylw.
4. Dylid cryfhau cynllunio ieithyddol cymunedol er mwyn ymestyn ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg. Dylai awdurdodau lleol mewn ardaloedd dwysedd canolig ac is gryfhau eu galluedd cynllunio ieithyddol eu hunain, ochr yn ochr â galluedd rhanddeiliaid y sector ac mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, i ddatblygu a gweithredu Strategaethau Hybu Iaith ymhellach.
5. Wrth sefydlu grŵp tasg a gorffen ym maes amrywiaeth a chynhwysiant mewn perthynas â'r Gymraeg dylai Llywodraeth Cymru ehangu cylch ei orchwyl i gynnwys ardaloedd o ddwysedd canolig ac is.
6. Dylai Llywodraeth Cymru, cyrff priodol eraill, ar y cyd â sefydliadau ymbarél datblygu cymunedol, lunio canllaw i'r sector datblygu cymunedol ymgorffori cymdeithasoli iaith yn eu gwaith mewn ardaloedd dwysedd canolig neu is.

Cyrraedd pob cymuned, cryfhau'r Gymraeg



Argymhellion 7 - 11

7. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio at y cyfraniad y gall y gwyddorau ymddygiadol ei roi i'r maes hwn. Dylai Llywodraeth Cymru integreiddio modelau newid ymddygiad yr ydym yn eu hamlinellu (megis CAM-Y a HAPUS) ar draws polisi a chynllunio iaith.
 8. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal a chomisiynu ymchwil gymdeithasol leol fanwl i ddeall cyfansoddiad, dynameg a phatrymau defnydd iaith mewn cymunedau. Dylai hyn hefyd gynnwys sefydlu arolwg defnydd iaith hydredol ar gyfer y Gymraeg.
 9. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad o sut mae (a sut y gallai) Awdurdodau Lleol a sefydliadau perthnasol eraill ymgorffori'r Gymraeg (mewn ffordd briodol i'r cyd-destun, ac ar ben dyletswyddau statudol) fel rhan o wasanaethau lles, cymdeithasol neu gymunedol mewn ardaloedd o ddwysedd canolig neu is, mewn ffordd sy'n ychwanegu gwerth i'r gwasanaethau hynny ac i brofiad eu defnyddwyr.
 10. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn mannau cymunedol, fel llyfrgelloedd, hybiau cymunedol a mannau cyfarfod eraill. Drwy Strategaethau Hybu'r Gymraeg, a thrwy bartneriaethau lleol rhwng rhanddeiliaid allweddol, dylai, o fewn ardaloedd o ddwysedd canolig ac is, fod o leiaf un gofod cymdeithasol, ac eithrio ysgolion, o fewn cyrraedd hawdd lle gall y gymuned ddefnyddio'r Gymraeg.
 11. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei hymyriadau strategol wrth gymdeithasoli newydd-ddyfodiaid i Gymru o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig yn caniatáu digon o gyfleoedd i gael mynediad i'r Gymraeg ac i ennill sgiliau yn yr iaith. Dylai hyn gynnwys cyfleoedd i newydd-ddyfodiaid o'r tu allan i'r DU ddysgu Cymraeg (WSOL neu Gymraeg i Siaradwyr leithoedd Eraill) ochr yn ochr â'r ddarpariaeth ESOL (Saesneg i Siaradwyr leithoedd Eraill) bresennol.
- Dylai'r Ganolfan Ddysgu Cymraeg Genedlaethol (a'r Athrofa Dysgu Cymraeg genedlaethol sydd i'w sefydlu yn 2027) sefydlu rhaglenni wedi'u hanelu at newydd-ddyfodiaid i'r Deyrnas Unedig, a allai gynnwys ategu'r cynllun 'Siarad' presennol. Dylent hefyd ystyried sut y gallai'r cynlluniau hyn gysylltu â'r Cynllun Llysgenhadon Diwylliannol.

Cyrraedd pob cymuned, cryfhau'r Gymraeg



Argymhellion 12 - 15

12. Dylai Llywodraeth Cymru rannu canfyddiadau'r ymchwil mae'n ei chynnal ar sail y gwyddorau ymddygiadol i drosglwyddo'r Gymraeg er mwyn hysbysu polisi a'r drafodaeth gyhoeddus. Dylai hefyd roi'r canfyddiadau ar waith fel rhan o'r 'Polisi Cenedlaethol ar Drosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd.' Dylid gwneud hyn drwy bob derbynnydd grant a phartner perthnasol.

13. Dylai Llywodraeth Cymru ddadansoddi arfer gorau trosglwyddo'r Fasgeg ymhellach a mabwysiadu, lle bo hynny'n briodol, ddulliau tebyg, sy'n benodol i'r cyd-destun, ar gyfer y Gymraeg.

14. Dylai awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru gefnogi ysgolion a'u cymunedau o rieni a gofalwyr i chwarae rôl ganolog mewn cymdeithasoli ieithyddol y tu hwnt i addysg ffurfiol. Dylai rhaglenni Ysgolion Bro a Chymunedau Dysgu Cynaliadwy fod yn ganolog i'r gwaith hwn. Dylai hyn gynnwys:

- (a) clustnodi arian cyfalaf a refeniw ar gyfer cymdeithasoli iaith
- (b) swyddogion ymgysylltu â theuluoedd (sydd yn aml yn gweithio o ysgolion a/neu hybiau cymunedol) yn derbyn hyfforddiant cymdeithasoli iaith sy'n berthnasol i'w cymunedau
- (c) cymunedau o rieni a gofalwyr yn cael cefnogaeth i fod yn 'gynllunwyr iaith in situ' drwy ddarparu offer ymarferol iddynt, felly hefyd adnoddau digidol, a rhwydweithiau cymheiriaid i gymdeithasoli eu plant yn Gymraeg (p'un a ydynt hwythau'n medru'r Gymraeg ai peidio).

15. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Gymraeg wedi'i hymgorffori yn ei rhaglenni sy'n darparu gofal plant neu addysg cyn-ysgol. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid allweddol yn y sector i sicrhau bod plant a theuluoedd ledled Cymru yn cael mynediad teg i'r Gymraeg yn eu cymunedau yn ystod y ddarpariaeth blynnyddoedd cynnar.

Cyrraedd pob cymuned, cryfhau'r Gymraeg



Argymhellion 16 - 19

16. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa i gryfhau presenoldeb y Gymraeg mewn mannau digidol ac o fewn cynnwys cyfryngau cymdeithasol i adlewyrchu'r defnydd cymdeithasol cyfoes o'r Gymraeg. Dylai hyn gynnwys canolbwyntio ar (a) gwella cynhyrchu a gwelededd cynnwys Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol, (b) datblygu sgiliau cynhyrchu digidol yn Gymraeg ymhlith pobl ifanc a grwpiau targed eraill (c) cefnogi cyfraniad dylanwadwyr cyfryngau cymdeithasol i'r ecosystem ddigidol Gymraeg.

17. Dylai Llywodraeth Cymru ddwysáu ei thrafodaethau strategol gyda chwmnïau technoleg perthnasol a rhanddeiliaid allweddol eraill gyda'r nod o wneud y Gymraeg mor hawdd i'w defnyddio â phosibl i'r defnyddiwr.

18. Mae diwylliant—a cherddoriaeth yn benodol—yn weithgareddau cymdeithasol pwysig lle gall cynulleidfaoedd eang fwynhau'r Gymraeg. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei strategaethau a'i rhaglenni i gefnogi diwylliant yn cydnabod y rôl bwyrus sydd gan y sectorau hyn yn y defnydd cymdeithasol o'r iaith ymhlith pobl ifanc yn arbennig. Mae hyn yn cynnwys gwneud darpariaeth newydd lle bo angen ar gyfer seilwaith priodol (fel lleoliadau hygyrch, rhaglenni datblygu talent, ymgysylltu ag ysgolion ac ati) fel y gall mwy o gymunedau gael mynediad at ddiwylliant yn y Gymraeg.

19. Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi Chwaraeon Cymru, mewn partneriaeth â sefydliadau perthnasol, i ddatblygu strategaeth i wella'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob camp ac i hyrwyddo cyfraniad chwaraeon at gymdeithasoli iaith ledled Cymru.

Cyrraedd pob cymuned, cryfhau'r Gymraeg



Argymhellion 20 - 23

20. Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn garreg filltir strategol bwysig ac yn gyfle hanfodol i drawsnewid mynediad i'r Gymraeg. Clywodd y Comisiwn am amseroedd teithio afresymol i gyrraedd addysg cyfrwng Cymraeg a gweithgareddau allgyrsiol Cymraeg cysylltiedig. Felly, dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol:

- (a) fapio amseroedd teithio i weithgareddau allgyrsiol Cymraeg, gan gynnwys y rhai a ddarperir ar safleoedd ysgolion;
- (b) ystyried effaith amser teithio ar gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol cyfrwng Cymraeg, wedi'u lleoli mewn ysgolion neu wedi'u trefnu ganddynt;
- (c) gosod amser teithio rhesymol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a'r gweithgareddau allgyrsiol.

21. Pan fo'r amseroedd teithio presennol yn afresymol, dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod addysg Gymraeg a'r gweithgareddau allgyrsiol cysylltiedig ar gael o fewn amser teithio rhesymol.

22. Dylai Llywodraeth Cymru ehangu rhaglen 'Arwain Mewn Gwlad Ddwyieithog' yn sylweddol fel ei bod yn cyrraedd mwyafrif arweinwyr Cymru, boed yn rheolwyr haen uwch neu'r haen ganol, o'r sector cyhoeddus, preifat a trydydd sector. Dylai hefyd bennu amserlen bendant a thargedau clir ar gyfer hyn.

23. Dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid perthnasol eraill ddefnyddio dull 'taith defnyddiwr' i sicrhau, o fewn ardaloedd o ddwysedd canolig neu is, bod yr holl gymorth ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar gael fel un profiad, waeth pwy yw'r darparwr. Dylai'r gwaith hwn ganolbwyntio ar newid diwylliannol, datblygu sefydliadol, cynllunio'r gweithlu, newid ymddygiad a thechnoleg iaith.

Cyrraedd pob cymuned, cryfhau'r Gymraeg



Argymhellion 24 - 31

24. Dylai Llywodraeth Cymru wneud adolygiad o swyddogaethau Busnes Cymru er mwyn gwneud y gorau o'i pherthynas a'i dylanwad ar y sector breifat er mwyn gosod y Gymraeg yn greiddiol i'w gwaith o ddatblygu busnesau Cymru.
25. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r Gymraeg wrth wraidd rhaglen waith a rôl y Partneriaethau Twf a'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.
26. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei phrosesau caffael i sicrhau bod y gwasanaethau a'r nwyddau y maent yn eu darparu, lle bo hynny'n berthnasol, yn bwrw agenda Cymraeg 2050 yn ei blaen.
27. Yn ei hymateb i adroddiad y Comisiwn ar gynllunio, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid addasu cynlluniau datblygu lleol o fewn ardaloedd o ddwysedd canolig neu is i roi ystyriaeth briodol i sicrhau cyfleoedd a gofodau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg.
28. Wrth weithredu ei hymateb i adroddiad y Comisiwn ar gynllunio, dylai Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol gymryd camau er mwyn cynyddu, yn sylweddol, bresenoldeb gweledol y Gymraeg ar y stryd fawr.
29. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad i weld i ba raddau y mae ei phrosesau dyfarnu grantiau yn cael eu defnyddio i wella'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg mewn modd priodol a dylai weithredu ar sail canfyddiadau'r adolygiad hwnnw.
30. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am fewnbwn gan Senedd Ieuenctid Cymru, Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol a fforymau ieuenctid perthnasol eraill wrth iddi adolygu a/neu adnewyddu Cymraeg 2050. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd sefydlu deialog barhaus gyda'r rhain er mwyn sicrhau bod barn pobl ifanc yn cael ei hadlewyrchu o fewn cynllunio iaith ac wrth roi polisi iaith ar waith yng Nghymru.
31. Dylid defnyddio'r gwyddorau ymddygiadol i lunio argymhellion holl adroddiadau'r Comisiwn, yn ogystal ag adolygiad a/neu ddiweddariad o Cymraeg 2050.

COMISIWN CYMUNEDAU CYMRAEG

<https://www.llyw.cymru/adroddiad-grymuso-cymunedau-cryfhaur-gymraeg>

- **Camau nesaf**
- Cyhoeddi'r Compendiwm ar gyfer Cam 2
- Adroddiad ar y Gymraeg y tu allan i Gymru
- Ymateb Llywodraeth newydd Cymru i adroddiad yr Ail Gam
- Cynnydd y Llywodraeth newydd ar Cam 1

